

# Amserlen ar gyfer ystyried Cyllideb 2023 - 2024

Gorffennaf 2022

Ar 1 Gorffennaf 2022, ysgrifennodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd at y Pwyllgor Busnes i nodi dyddiadau arfaethedig ar gyfer cyhoeddi'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24, yn unol â Rheol Sefydlog 20.2.

Yn unol â Rheol Sefydlog 20.4, ymgynghorodd y Pwyllgor Busnes â'r Pwyllgor Cyllid. Oherwydd ansicrwydd ynghylch digwyddiad cyllidol disgwylidig gan Lywodraeth y DU yn yr hydref, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar amserlen arfaethedig Llywodraeth Cymru (gweler isod) ar gyfer trafod cyllideb 2023-24. Wrth wneud hynny, nododd y Pwyllgor Busnes yr arwyddion a roddwyd gan Lywodraeth Cymru y gallai fod yn bosibl addasu'r amserlen unwaith y bydd bwriadau Llywodraeth y DU yn gliriach.

	Dyddiad
Gosod cynigion amlinellol ar gyfer cyllideb y Llywodraeth	13 Rhagfyr 2022
Gosod cynigion manwl ar gyfer cyllideb y Llywodraeth	13 Rhagfyr 2022
Y dyddiad cau i'r Pwyllgor Cyllid gyflwyno adroddiad ar gynigion amlinellol cyllideb y Llywodraeth	6 Chwefror 2023
Y dyddiad cau i'r pwyllgorau eraill gwblhau eu hystyriaeth o'r cynigion manwl ar gyfer y gyllideb	6 Chwefror 2023
Cyflwyno cynnig y gyllideb flynyddol	28 Chwefror 2023

